


Cynllun Gweithgaredd <i>Activity Plan</i>		
Gweithgaredd: Mathemateg		
Nifer o blant: 4	Oed y plant: 6/7	Nifer o oedolion: 1 oedolyn i bob 4 plant
Lleoliad: dosbarth	Amser paratoi: 35 munud i baratoi y gwialen pysgota, a lameneiddio prisau arian.	Amser gweithgaredd: 30 munud
Adnoddau: • <i>Pysgod magnetig</i> • <i>Gwialen pysgota gyda maged ar y waelod</i> • <i>Bowlen mawr</i> • <i>Prisiau wedi lameneiddio gyda maged</i> • <i>Blu tack</i> • <i>Arian plastig e.e/ geiniogau £1, 10c, 50c</i> • <i>Dwr</i>		
Amcan/ion y weithgaredd: • Wrth i blant wneud y tasg yma byddant yn adnabod gwerth arian a rhifau wrth lldynt cysylltu gwerthoedd gwahanol. • Helpu hyder y plant wrth delio a arian- gall helpu yn y dyfodol wrth i nhw fynd i siop. • Gall y gweithgaredd helpu sgiliau modur am fod angen cydsymud llaw a llygad. • Annog plant i weithio fel grwp, wrth iddynt helpu eu gilydd i newid y pris i geiniogau.		
Cysylltiadau â deilliannau: Defnyddir y system rif i gymharu a gynrychioli berthynas rhwng rhifau a meintiau, dan do ac yn awyr agored. Gellir defnyddio iaith mathemategol er enghraifft prisau gwahanol Gellir archwilio ffurfio maint mewn gwahanol ffyrdd, wrth ddefnyddio cyfuniadau o wrthrychau neu feintiau megis ceiniogau plastig yn gweithgaredd yma.		
Gwahaniaethu: Os bydd angen fwy o gymorth ar blentyn bydd yna aelod o staff yn gallu cynnig cymorth trwy gydol y weithgaredd.		
Iechyd a diogelwch: Mae asesiad risg wedi cael ei gwneud a mae tystusgrif cymorth cyntaf gyda pob oedolyn.		

Rôl yr oedolyn/oedolion:

- Esbonio amcan y gweithgaredd l'r plant a sut l ddefnyddio'r offer
- Helpu'r plant gyda'l anghenion trwy gydol y gweithgaredd
- Sicrhau bod y gweithgaredd yn addas ar gyfer y plant er enghraifft bod yr offer yn addas am eu oedran
- Arsywi y plant sydd yn gwneud y gweithgaredd l dracio'l datblygiad ac l weld os oes unrhyw adrannau sydd angen fwy o gymorth.

Y weithgaredd:

- o gwmpas un ford yn y dosbarth bydd 4 plentyn
- Yn canol y ford bydd bowlen canolog gyda dwr ynddo (tua hanner llawn) a pysgod magnetig ynddo, bydd 12 o nhw felly, 3 i bob plentyn. Bydd prisiau sydd wedi lamenddio yn cael ei rhoi ar y pysgod gwahanol gyda blue tack, er enghraifft £1.40, £3, 10c.
- Bydd pob plentyn yn cael gwialen pysgota sydd a maged ar y diwedd. Bydd un plentyn ar y tro yn dal pysgodyn gyda'u gwialen.
- Ar ol l nhw dal pysgodyn bydd rhaid l nhw edrych ar y pris sydd ar y pysgodyn. Bydd hambwrdd gyda'r ceiniogau plastig gwahanol arno yn ganol y ford, fel grwp bydd rhaid i nhw paru y pris sydd wedi lamenddio gyda'r ceiniogau plastig.
- Ar ol i nhw wneud hyn bydd y plant yn ail-adrodd tan bod y pysgod i gyd wedi cael eu casglu.



Adran 2

Yn ôl Teach Early Years (2021) er mwyn cynnig cyfleoedd da i'r plant dysgu a datblygu eu sgiliau mathemateg, dylai amgylchoedd fod yn addas. Yn ôl Llywodraeth Cymru (2015) mae amgylcheddau dan do sydd llawn hwyl, gyffrous, ysgogol a ddiogel yn hybu datblygiad plant a chwilfrydedd naturiol i ymchwilio a dysgu drwy brofiadau. Felly wrth wneud gweithgareddau yn y dosbarth mae'n annog plant i ddysgu am ei fod wedi amgylchynu efo adrannau sy'n ysgogi mathemateg/dysgu. Gall pob plentyn fod yn llwyddiannus yn fathemateg os mae yna gyfleoedd sy'n gwneud synnwyr iddynt. Mae dysgu a datblygu yn ymwneud a darparu gweithgareddau ac adnoddau sy'n cefnogi anghenion unigol plant gan ganolbwyntio ar fathemateg megis edrych ar siâp, gofod a mesur gyda chwarae dychmygus a datblygu dealltwriaeth mathemateg trwy ddefnyddio ceiniogau plastig sy'n annog plant i gyfri.

I bob gweithgaredd mae yna gryfderau a gwendidau. Yn ôl Early years Careers (2021) mae gweithgareddau grŵp yn ffordd dda o hyrwyddo datblygiad mathemateg. Yn y gweithgaredd bydd grŵp o 4 plant yn datrys y problemau gan weithio gyda'i gilydd. Mae hyn yn annog plant i weithio yn grŵp trwy rannu syniadau a dod i ddatrysiaid fel tîm.

Wrth i blant gwneud y gweithgaredd bydd yna ymarferydd yn arsylwi nhw ac yn helpu'r plant trwy'r gweithgaredd, mae hyn yn gallu creu llawer o iaith mathemateg bositif a sgiliau. Dywed Llywodraeth Cymru (2015) bod plant yn dysgu trwy weithgareddau sy'n cynnig profiadau uniongyrchol. Wrth i blant chwarae maent yn dysgu, chwarae a syniadau, arbrosi, cymryd risgiau, datrys problemau. Dylai cwricwlwm i blant ifanc fod yn gysylltiedig â 'i cham dysgu yn hytrach na chanolbwyntio ar y deilliannau cysylltiedig ag oedran sydd i'w cyflawni. Yn y gweithgaredd mae'n gallu cael eu haddasu i anghenion y plant er enghraifft os mae'n rhy galed gall yr ymarferydd newid y ceiniogau plastig i bapur sydd wedi lamineiddio gyda phrisiau sydd yn cyfateb ar bysgod. Cysyllta hyn a theori Vygotsky sy'n sôn am bwysigrwydd cefnogi datblygiad, dywed bod rhyngweithio cymdeithasol a chwarae dychmygus yn gyfranwyr mawr i'r broses o ddatblygu gwybyddol. Credai fod rhyngweithio cymdeithasol y mae plant yn ymwneud ag yn eu helpu i ddarganfod a chreu ystyr o'r pethau y maent yn eu ddarganfod. Er enghraifft yn weithgaredd fi gall yr ymarferydd esgus maent yn siop yn aros am newid, bydd hyn yn annog y plant i ffocysu ar y dasg hefyd (Early Years Careers, 2021).

Cryfder arall yw bod y gweithgaredd yn annog sgiliau mathemateg yn ffordd hwylus i'r plant. Mae plant yn fwy bodlon i ddysgu pan maent yn chwarae ond dal yn cael eu herio gan wthio eu terfynau. Wrth i blant wneud y dasg yma byddant yn adnabod gwerth arian a rhifau wrth iddynt gysylltu gwerthoedd gwahanol. Gall y gweithgaredd hefyd helpu sgiliau modur am fod angen cydsymud llaw a llygad. Yn ol Tucker, k (2016) dylai adnoddau priodol cael ei cynnig i'r plant i ysbrydoli a ysgogi

nhw. I ychwanegu dylai fod digon o le l alluogi rhyngweithio a chyfoedion a fod yna llif naturiol o un weithgaredd i'r lall. Mae'n bwysig fod digon o amser i blant allu archwilio y cyfleloedd o'u gwmpas.

Mae'r gweithgaredd yn cael ei chynnig yn y dosbarth oherwydd mae'n amgylchedd hwylus yn amgylchynu nhw ac mae'n lleoliad sy'n annog dysgu. Ond yn ôl NCT (2021) mae mynd allan i chwarae yn brofiad synhwyrdd gwych i fabanod a phlant bach. Mae cymaint iddyn nhw ei weld, ei archwilio a'i dysgu. Mae natur gyfnewidiol yr awyr agored yn ei wneud yn lle hynod ysgogol ac amlsynhwyrdd i chwarae ynddo. Mae hyn yn bwysig wrth i fabanod a phlant ifanc ddysgu a chael profiad drwy eu holl synhwyrddau. Felly i wella y gweithgaredd gall e cael ei cynnig tu allan er mwyn gwneud yn fwy buddiol i blant. I ychwanegu dylai amgylchedd y cyfnod Sylfaen hybu sgiliau annibyniaeth a darganfod a rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r awyr agored fel adnodd ar gyfer dysgu plant (Llywodraeth Cymru, 2015).

Yn ôl Teach Early Years (2021) dylai pob pletyn cael y dechreuiaid gorau yn fywyd, gyda chyfleoedd yn amgylchedd sy'n ddiogel, na pham wrth greu gweithgaredd mae'n bwysig i ystyried iechyd a diogelwch y plentyn. Rôl yr oedolyn yw gwneud asesiad risg i asesu'r risgiau sydd agored i'r plant wrth iddyn nhw wneud y gweithgaredd, mae'n bwysig bod yr ymarferydd yn lleihau siawns o blentyn cael niwed. Hefyd gall rhai plant fod fwy agored i risg mae'n bwysig bod oedolion cydnabod hyn.

I ychwanegu mae rôl yr oedolyn yn bwysig yn ystod y gweithgaredd. Bydd rhaid iddynt esbonio'r dasg yn glir i'r plant a sicrhau bod pob un ohonyn nhw yn deall. Mae'n angenrheidiol bod yr ymarferydd yn arsylwi'r plant trwy gydol y dasg, mae hyn yn helpu nhw tracio datblygiad pob plentyn unigol. Bydd hyn yn helpu ymarferydd penderfynu lle mae gwendidau a chryfderau plentyn, sy'n caniatáu nhw gwneud fwy o weithgareddau addas i anghenion y plentyn. Mae hyn yn debyg i theori Maslow, sef Triongl Hierarchaeth Maslow. Felly mae'r triongl hierarchaeth Maslow yn dangos anghenion plentyn, pwynt y triongl yw bod angen cyrraedd anghenion gwaelod er mwyn symud ymlaen i'r cam nesaf. Mae Maslow yn ysgogi pobl i gyflawni eu hanghenion mewn trefn hierarchaidd. Mae'r triongl yn dechrau gydag anghenion sylfaenol megis gofynion corfforol sef dwr, ocsigen. Yna mae'n symud ymlaen i anghenion uwch fel cariad, felly cael perthynas ymddiriedus. Y nod yw cyrraedd hunan-actoleiddio, dyna pryd mae'r plentyn wedi setlo a hefyd yn gallu dysgu yn llwyddiannus (McLeod, S, 2020).

Yn flynyddoedd cynnar mae nifer o fyfyrwr gwahanol. Er enghraifft plant efo ADY, sef plant sydd angen fwy o gymorth na phlant eraill. Enw hyn yw anghenion addysgol arbennig (AAA). Rhai weithiau maent yn cael eu hadnabod fel anabledd dysgu neu anhawster dysgu. Bydd y plant yma yn cael trafferth yn darllen, ysgrifennu, deall, gweld, clywed a siarad. Felly bydd y plentyn yma yn cael cynllun datblygiad unigol sydd yn cyrraedd eu hanghenion. Bydd y cynllun yn dweud beth mae'r plentyn angen dysgu. Os mae'r plentyn yn mynd i feithrinfa bydd awdurdod lleol yn ysgrifennu'r cynllun ond bydd pawb yn rhan ohono er enghraifft rheini, staff o wasanaethau cymdeithasol sy'n cefnogi'r plant neu unrhyw yn sy'n cefnogi'r plentyn. Gall ymarferydd wedyn defnyddio'r cynllun yma i addasu gweithgareddau fel hyn i sicrhau bod ên cyrraedd anghenion y plentyn a bod nhw'n dysgu'r pethau iawn. (Llywodraeth Cymru, 2017).

Un peth gallai newid yw'r math o adnoddau rwy'n defnyddio yn y gweithgaredd. Yn y gweithgaredd mae llawer o blastig yn cael ei defnyddio megis pysgod plastig a cheiniogau plastig, felly i wneud pethau yn fwy buddiol i blant gallai newid yr adnoddau i rai naturiol. Dywed theori Froebel, bod plant yn dysgu orau yn lleoliadau sy'n darparu amgylchedd ysgogol a pharatoi lle gallant archwilio a dysgu o'u phrofiadau a'u safbwyntiau eu hunain. Yn theori Froebel dywed bod plant yn datblygu yn wahanol a dylai cael cyfle i ddatblygu ar gyflymder eu hunain. Felly dylai'r dosbarth cael ei chynllunio ar gyfer chwarae rhydd, gan gyflwyno offer a deunyddiau sy'n optimaidd

i blant ar gyfer lefel eu datblygiad. Yn ôl Natural things resource (2014) mae deunyddiau naturiol yn ysgogi dychmyg a chreadigrwydd plant oherwydd mae'r plant yn gallu chwarae mewn sawl ffordd wahanol. Mae gwrthrychau naturiol sydd â phosibiliadau penagored yn aml yn annog plant i gymryd rhan mewn profiadau cyfoethog. Mae adnoddau naturiol yn hygyrch. Gellir eu casglu o iardiau cefn, a'r ysgol/cynysgol am ddim. Mae'r adnoddau'n adnewyddadwy, mae ychydig iawn o niwed yn cael eu creu i'r amgylchedd wrth gasglu'r adnoddau yma.

Adran 3

Yn flynyddoedd cynnar mae yna nifer o adnoddau sy'n gallu hyrwyddo sgiliau math. Mae adnoddau naturiol yn fuddiol iawn am hyrwyddo mathemateg. Yn ôl Teach Early Years (2021) mae adnoddau naturiol yn helpu plant dysgu mathemateg trwy eu synhwyrau, gan gynnwys cyffyrddiad, arogl, sain a blas. Yn ôl Natural resources (2021) wrth i blant chwarae ar adnoddau yma mae'n ysgogi creadigrwydd a dychmyg plant am ei fod yn gallu cael ei chwarae yn nifer o ffyrdd gwahanol. Er enghraifft 'she-oak pods' gall cael ei defnyddio i argraffu yn y mwd neu glai neu fel arian yn gêm, mae hyn yn cysylltu â mathemateg. Wrth i blant chwarae gallant nhw esgus chwarae yn siop a defnyddio'r 'she-oak pods' fel arian. Mae gwrthrychau naturiol â phosibiliadau penagored mae hyn yn annog plant i gymryd rhan mewn chwarae sy'n cynnig profiadau cyfoethog. Mae gan ddeunyddiau naturiol fudd synhwyraidd. Mae ganddynt wahanol waedau, meintiau, lliwiau ac arogleuon. Maent yn darparu symbyliad mwy cyffyrddol i blant i'w helpu i wella ymwybyddiaeth a chydymud eu dwylo/bysedd. I ychwanegu mae adnoddau naturiol yn hygyrch. Gellir eu casglu o iardiau cefn neu o'r ysgol am ddim. Wrth i blant chwarae ac adnoddau naturiol maent yn dysgu am natur ac i fod yn ddyfeisgar. Wrth i oedolion cefnogi plant maent yn cryfhau eu hymdeimlad o le a helpu nhw dysgu am ei hamgylchedd lleol. Yn debyg i theori Froebel (1782-1852), "play is the highest expression of human development in childhood for it alone is the free expression of what is in the child's soul." Yn ôl Froebel, wrth chwarae mae plant yn llunio eu dealltwriaeth o'r byd drwy brofiad uniongyrchol ag ef. Mae ei syniadau am ddysgu drwy fyd natur a phwysigrwydd chwarae wedi lledu led led y byd. (Early Education, 2021).

Yn ôl Community Play Things (2021) mae gweithgareddau yn yr awyr agored yn hyrwyddo mathemateg. Wrth gael profiad o fathemateg tu allan mae'n cynnig ymdeimlad o ryddid heb unrhyw gyfyngiadau. Hefyd mae'n annog agwedd fathemategol a galluogi plant i wneud cysylltiadau defnyddiol yn eu dysgu. Wrth i ymarferydd hyrwyddo mathemateg tu allan, mae'n cynnig gweithgareddau mathemategol mewn cyd-destun nad yw fel arfer yn gysylltiedig â dysgu mathemateg, felly maent yn annog archwilio a chymryd risgiau. Mae hefyd yn cefnogi lles emosiynol plant a chyfrannu at hunanddelwedd plant fel mathemategwyr. Er mwyn cefnogi datblygiad plant mae'n bwysig i edrych ar gyfleoedd mae'r awyr agored yn darparu gydag adnoddau sy'n cael ei chynnig gan yr ymarferydd a'r adnoddau a gyflenwir yn ôl natur. Mae'r amgylchedd hwn yn dod a mathemateg natur megis siâp, cymesuredd, lliw, dosbarthiad, trefn, patrymau a maint.

Yn ôl Early years careers (2021) mae adnoddau penagored yn fuddiol i blant, mae'n rhoi cyfle i blant archwilio deunyddiau, yn helpu nhw datblygu eu creadigrwydd a sgiliau dychmygol. Nid oes ffordd gywir neu anghywir i ddefnyddio adnoddau penagored, gall yr adnoddau cael ei defnyddio dan do ac yn yr awyr agored ac mae'n helpu plant herio eu hun. Mae adnoddau penagored yn hyrwyddo chwarae hunangyfeiried, felly mae'r plant yn chwarae efo pethau sy'n diddori nhw. Er mwyn i leoliadau hyrwyddo mathemateg mae'n bosib sefydlu ardal ymchwilio mathemateg ar silffoedd yn y dosbarth sydd a digon o chwarae mathemateg benagored, hunan cyfeiriedig. Dylai ymarferydd cynnwys digon o ddeunyddiau sy'n cynnig posibiliadau eang o ddysgu, er enghraifft deunyddiau sy'n bwyso, mesur, didoli, archebu, patrymu, archwilio siapau, dosbarthu, cyfrif a

chydabod rhifolion (The imagination Tree, 2013). Mae 'loose parts' yn enghraifft o adnoddau penagored, y math y pethau sy'n cael ei chynnwys yma yw

- Eitemau cartref fel rils cotwm, blociau
- Adnoddau naturiol fel cerrig, cregyn mor, plu
- Deunyddiau fel sgraffiau, rhubunau
- Adnoddau plastig fell ego, briciau

(Pacey, 2021)

Yn ôl Lipp, M (2021) yn amgylchedd sydd a 'loose parts' mae'n hyrwyddo datblygiad mathemateg. Mae cyfuno chwarae 'loose parts' yn mynd ag unigedd ffurfiol allan o fathemateg ac yn cyflwyno arbrofi a chydweithredu. Mae yna sawl ffordd y gallch annog plant i feddwl yn fathemategol wrth iddynt archwilio gyda rhannau rhydd. Gellir defnyddio 'loose parts' i annog didoli. Wrth i blant didoli eitemau maent yn dod yn gyfarwydd â maint, gymhareb a dosbarthiad. Er enghraifft caeadau plastig bydd plant yn naturiol yn didoli nhw yn ôl maint lliw neu ddeunydd.

Adnodd sy'n hyrwyddo mathemateg yw 'threading', wrth wneud hyn gyda gleiniau nid yn unig yn wych ar gyfer datblygu sgiliau echddygol cain hanfodol ond gellir ei defnyddio hefyd fel ffordd o gyflwyno plant ifanc i amrywiaeth o gysyniadau mathemategol fel lliwiau, patrymau, siapau a chyfrif. Hefyd mae'n annog iaith fathemategol sef patrwm, enwau o ffa megis sffêr, silindr, cwpan, didoli, dosbarthu, cyfrif, lliw, maint (maths materials, 2021).

Adran 4

Yn ôl Alexandra Louis (2018) mae mathemateg yn cymryd rôl fawr yn ddatblygiad plentyn ac mae'n helpu nhw gwneud synnwyr o'r byd o'u hamgylch. Mae plant rhwng yr oedran 1-5 mlwydd oed yn dechrau archwilio patrymau, siapau, cymharu meintiau a chyfri gwrthrychau. Yn feithrinfa neu ysgolion maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ddatrys problemau a siarad am eu canfyddiadau. Mae chwarae mathemateg yn amlwg mewn chwarae esgus, chwarae bloc, chwarae llythrennedd, chwarae yn yr awyr agored a chwarae gwyddoniaeth. Enghraifft o'r math ddeunyddiau yw taflenni olrhain rhifau neu toes chwarae.

Mae rhieni ac ymarferydd efo rôl bwysig i fod yn rôl model i'r plant a bod yn fodel trwy ddarparu cyfleoedd i blant ddysgu a datblygu sgiliau Newydd. I ychwanegu mae'n bwysig bod oedolion yn gadael plant gyfeirio eu chwarae a'u cefnogi drwy wella neu ymestyn eu chwarae. Mae'n angenrheidiol bod oedolion yn cynnig y cyfleoedd yma i blant wrth gynllunio gweithgareddau sef i archwilio a chreu, defnyddio cysyniadau a sgiliau rhif i archwilio, datblygu hyder yn eu gallu i feddwl am bethau, datrys problemau ystyrlon a chreu cysylltiadau i helpu i ddarganfod perthnasoedd.

Wrth i ymarferydd gynllunio gweithgareddau mae'n bwysig bod nhw'n cynllunio yn effeithiol. Ffordd effeithiol i blant dysgu mathemateg yw trwy wneud gweithgareddau grŵp, wrth i blant gweithio fel grŵp maent yn annog sgiliau eraill megis rhannu syniadau, gwrandao Ar eraill yn ogystal â hyrwyddo datblygiad mathemateg. Ffyrdd arall yw bod ymarferydd yn cynllunio'r amgylchedd yn ffordd sy'n hyrwyddo mathemateg yn ffordd hwylus, i sicrhau bod y plant efo nifer o gyfleoedd i archwilio a dysgu mathemateg ar eu hunan. Er enghraifft mae cael rhifau yn amgylchedd neu yn hambyrddau chwarae anniben neu adrannau chwarae rôl yn gallu cefnogi hyn. Mae technoleg yn ffordd effeithiol i hyrwyddo mathemateg yn flynyddoedd cynnar. Mae yna nifer o gemau ar gyfrifiaduron neu dabledi sy'n hyrwyddo mathemateg yn enwedig a sgiliau eraill. Mae rhanfwyaf o blant yn gweld gweithgareddau fel hyn yn hwylus ac nad yw'n ymwybodol bod nhw'n dysgu maths. Wrth i ymarferydd gweld plant yn chwarae rhai weithiau mae'n bwysig i wneud rhyngweithio sensitif

am eu bod yn creu llawer o iaith a sgiliau mathemateg bositif. Er enghraifft cwestiynu plant am siapau sydd yn yr amgylchedd o'u gwmpas (Early years careers, 2021). Dywed Early years careers (2021) y dulliau mwy effeithiol yw defnyddio dull cymysg o ddysgu gydag amrywiaeth o wahanol ddulliau dysgu, gweithgareddau, rhyngweithiad ac adnoddau cefnogol o fewn yr amgylchedd.

Yn ôl curriculum for wales (2015) wrth i ymarferydd cynllunio mae'n ymwneud ag ymarferydd yn deall, ysbrydoli a herio potensial ar gyfer dysgu. Dylai fod cydbwysedd rhwng dysgu strwythuredig drwy weithgareddau a gychwynnir gan y plentyn a rhai a gyfarwyddir gan ymarferwyr. Mae cwricwlwm sydd wedi cael ei chynllunio yn dda yn rhoi cyfleoedd i blant fod yn greadigol a'u dysgu eu hunain sy'n adeiladu ar yr hyn maent yn gwybod y barod, eu diddordebau a'r hyn y maent yn ei deall. Mae dysgu gweithredol yn gwella ac yn ymestyn datblygiad.

Yn ôl EEF (2021) mae plant yn cyrraedd camau gwahanol wrth ddysgu am fod pawb yn dysgu ar gyflymderau gwahanol. Am fod rhai plant heb gael yr amrywiaeth a chymaint o brofiadau mathemategol. Felly dylai ymarferydd arsylwi i ddeall cryfderau a gwendidau'r plentyn er mwyn allu addasu tasgau iddyn nhw. Mae'n bwysig i ymarferydd deall datblygiad mathemategol wrth arsylwi, wrth wybod hyn gellir llywio penderfyniadau am ba gwestiynau i'w gofyn i asesu dealltwriaeth, beth ddylai plentyn ddysgu nesaf ac yna sut i ddewis gweithgareddau sydd ar lefel plentyn neu ychydig yn uwch na'i gallu er mwyn herio eu terfynau. Mae yna amrywiaeth o ddulliau i asesu datblygiad mathemategol plentyn. Mae hyn yn cynnwys arsylwi plentyn wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd, gan osod tasgau penodol i ddatgelu dealltwriaeth a thrafodaethau gyda phlant am fathemateg. Gallai ymarferwyr dargedu gweithgareddau asesu i blant. Dylai'r dewis o strategaeth bod yn briodol i'w hoedran ni fydd asesiadau ysgrifenedig neu asesiadau wedi amseru fod yn briodol i blant iau. Wrth arsylwi plant mae rhoi cyfle i weld beth allent wneud yn annibynnol. Mae yna nifer o gyfleoedd trwy'r dydd i arsylwi beth mae plant yn dweud a gwneud sy'n dangos eu datblygiad mathemategol. Er enghraifft y ffordd maent yn chwarae efo blociau neu sut mae'n cyfri gwrthrychau. Yna mae'n rhoi cyfle i ymarferydd trafod mathemateg â'r blentyn i deall eu dealltwriaeth er mwyn allu cynllunio gweithgareddau am y dyfodol i hyrwyddo eu datblygiad ymhellach. Wrth i ymarferydd trafod mathemateg a phlant mae'n bwysig i wrando Ar ymatebion y plant a sut maent yn egluro pethau. Hefyd ystyried cwestiynau a fydd yn helpu cael dealltwriaeth o'i datblygiad, megis cwestiynau penagored fel 'sut oeddet yn gwybod?'. Mae'n bwysig i'r ymarferydd archwilio sut digwyddodd gwall, bydd hyn yn helpu gweld sut meddyliodd y plentyn am yr ateb sydd yn helpu ymarferydd rhoi cymorth iddo a helpu eu gwybodaeth a dealltwriaeth mathemateg.

Rhestr Cyfeiriadau

Care for Kids (2017) The Froebel Approach. Ar gael o: [The Froebel Approach - CareforKids.com.au](http://TheFroebelApproach-CareforKids.com.au) (Darllenwyd ar: 26ain o Chwefror).

Community Play things (2021) Maths in the great outdoors. Ar gael o: [Community Playthings | Maths in the great outdoors](http://CommunityPlaythings-Maths-in-the-great-outdoors) (Darllenwyd ar: 25ain o Chwefror).

Early childhood education blog (2018) The importance of math in the early years. Ar gael o: [The Importance of Math in the Early Years \(himama.com\)](http://TheImportanceofMathintheEarlyYears(himama.com)) (Darllenwyd ar: 27ain o Chwefror).

Early Education (2021) Friedrich Froebel. Ar gael o: [Friedrich Froebel | Early Education \(early-education.org.uk\)](http://FriedrichFroebel-EarlyEducation(early-education.org.uk)) (Darllenwyd ar: 24ain o Chwefror).

Early years careers (2021a) How should mathematics be promoted within early years?. Ar gael o: [How should mathematics be promoted within Early Years? \(earlyyears-careers.com\)](http://Howshouldmathematicsbe-promoted-within-Early-Years?(earlyyears-careers.com)) (Darllenwyd ar: 26ain o Chwefror).

Early Years Careers (2021b) Using open ended resources with toddlers. Ar gael o: [Using open ended resources with Toddlers \(earlyyears-careers.com\)](http://Using-open-ended-resources-with-Toddlers(earlyyears-careers.com)) (Darllenwyd ar: 24ain o Chwefror).

EEF (2021) Improving Mathematics In Early years and key stage 1. Ar gael o: [EEF Maths EY KS1 Guidance Report.pdf \(educationendowmentfoundation.org.uk\)](http://EEF-Maths-EY-KS1-Guidance-Report.pdf(educationendowmentfoundation.org.uk)) (Darllenwyd ar: 26ain o Chwefror).

Hwb Gymru (2020) mathemateg a rhifedd. Ar gael o: [Disgrifiadau dysgu - Hwb \(gov.wales\)](http://Disgrifiadau-dysgu-Hwb(gov.wales)) (Darllenwyd ar: 25ain o Chwefror).

Lipp, M (2021) Math and loose parts play. Ar gael o: [Math and Loose Parts Play - Fantastic Fun & Learning \(fantasticfunandlearning.com\)](http://Math-and-Loose-Parts-Play-Fantastic-Fun-&Learning(fantasticfunandlearning.com)) (Darllenwyd ar: 23ain o Chwefror).

Llywodraeth Cymru (2015) Fframwaith y cyfnod sylfaen. Wales. [e-book]. Ar gael o: [Foundation Phase Mathematical Development WELSH.pdf \(uwtsd.ac.uk\)](http://Foundation-Phase-Mathematical-Development-WELSH.pdf(uwtsd.ac.uk)) (Darllenwyd ar: 25ain o Chwefror).

Llywodraeth cymru (2017) Helping children and young people who need extra support to learn. Wales. [e-book]. Ar gael o: [Additional Learning Needs and Educational Tribunal \(Wales\) Bill easy read \(gov.wales\)](http://Additional-Learning-Needs-and-Educational-Tribunal(Wales)-Bill-easy-read(gov.wales)) [Darllenwyd ar: 25ain o Chwefror].

Maths materials (2021) Beads and threading laces. Ar gael o: [Beads and Threading Laces – Maths Materials](http://Beads-and-Threading-Laces-Maths-Materials) (Darllenwyd ar: 27ain o Chwefror).

Natural things resource (2021) Natural things resource. South Australia. [e-book]. Ar gael o: nrmd-natural-things-resource-gen.pdf [Darllenwyd ar: 25ain o Chwefror].

NCT (2021) The benefits of outdoor play for children. Ar gael o: [The benefits of outdoor play for children | NCT](http://The-benefits-of-outdoor-play-for-children-NCT) (Darllenwyd ar: 25ain o Chwefror).

Pacey (2019) Getting to grips with loose parts play. Ar gael o: [Getting to grips with loose parts play | PACEY](http://Getting-to-grips-with-loose-parts-play-PACEY) (Darllenwyd ar: 23ain o Chwefror).

Simply Psychology (2020a) Lev Vygotsky's socialcultural theory. Ar gael o: [Lev Vygotsky's Sociocultural Theory | Simply Psychology](http://Lev-Vygotsky's-Sociocultural-Theory-Simply-Psychology) (Darllenwyd ar: 25ain o Chwefror).

Simply psychology (2020b) Maslow's Hierarchy of needs. Ar gael o: [Maslow's Hierarchy of Needs | Simply Psychology](#) (Darllenwyd ar: 25ain o Chwefror).

Teach early years (2021a) Taking maths outdoors. Ar gael o: [Taking Maths Outdoors | Learning and Development | Teach Early Years](#) (Darllenwyd ar: 24ain o Chwefror).

Teach Early years (2021b) Developing your maths provision. Ar gael o: [Q&A: Developing Your Maths Provision | Early Years Management | Teach Early Years](#) (Darllenwyd ar: 27ain o Chwefror).

Teach Early Years (2021c) Health & Safety in the nursery. Ar gael o: [Health & Safety in the Nursery | Early Years Management | Teach Early Years](#) (Darllenwyd ar: 26ain o Chwefror).

Tucker, K. (no date) Creating and using a mathematical environment (3rd ed). Mathematics through play in the early years.